Sut y cafodd y jiráff wddf hir

Penderfyniad / Gweledigaeth / Dal Ati

Amser maith yn ôl pan oedd ychydig o anifeiliaid yn byw yn y byd, roedd gwddf y jiráff yn hirach na gwddf y camel, a dipyn hirach na gwddf y sebra ond dim ond ychydig yn hirach na gwddf y gorila.

Am amser maith bu'r jiráff yn bwyta'r dail oedd ar waelod y goeden. Yna un diwrnod ofnadwy, ofnadwy daeth cwmwl du i orchuddio'r coed. Dyna lle roedd y cwmwl yn mynd a dod o gwmpas y coed. Yna, dyma'r cwmwl du yn aros ar y dail ym môn y coed.

Yno roedd y dail melysaf i'w cael.

Roedd sŵn cnoi a chnoi dros y goedwig i gyd. Ymhen dim roedd y cwmwl du wedi symud i goeden arall. Cnoi a chnoi. Symud i goeden arall. Cnoi a chnoi. A dyna fu eu hanes drwy'r dydd a phob dydd am ddyddiau.

Yn sydyn cododd y cwmwl du a ffwrdd a fo dros y coed a'r caeau. Doedd yna ddim deilen ar gael yn unman yn y goedwig.

Daeth yr anifeiliaid at ei gilydd ar ôl i'r cwmwl du ddiflannu.

"Rydw i'n gwybod beth oedd y cwmwl du" meddai'r eliffant. "Haid o locustiaid oedden nhw. Dydw i ddim yn gwybod pam eu bod nhw wedi bwyta'r dail i gyd oddi ar waelod y coed yn unig. Fel arfer mae'n nhw'n bwyta'r dail i gyd, bob un ohonyn nhw. Wedyn mae'r coed i gyd yn noeth. Dim deilen yn unman."

Sibrydodd y jiráff wrth ei hunan "Pa beth wnâi? Mi fydda i'n siŵr o lwgu i farwolaeth. Fydd dim dail i mi i'w fwyta."

"Mi wn i beth fedri di'i wneud? meddai'r llew dan ruo. "Mi fydd raid i ti ymestyn dy wddf i gyrraedd y dail ar ben ucha'r coed."

Dechreuodd y jiráff ymestyn ei ben yn fwy ac yn fwy. Roedd yr anifeiliaid eraill i gyd yn gweiddi gyda'i gilydd "Dipyn mwy! Dipyn mwy! Dipyn mwy! Ond yn anffodus doedd y jiráff ddim yn gallu cyrraedd pen ucha'r coed.

"Fedra i ddim cyrraedd," meddai'r jiráff yn ddigon digalon.
"Mae'n rhaid i ti fod yn amyneddgar," meddai'r llew. "Mae'n rhaid i ti ddal ati a gwneud dy orau."
"Na fedra," meddai'r jiráff.
"Medri" meddai'r llew, "Dal ati ac mi fyddi di'n siŵr o gyrraedd pen ucha'r coed.
Yn sydyn bloeddiodd y jiráff. "Rydw i wedi cyrraedd pen ucha'r coed," a dyma fo'n dechrau arni i fwyta'r dail.
Ar ôl iddo ymestyn ei wddf doedd o ddim yn gallu ei wneud yn llai erbyn hyn. A byth ar ôl hynny mae gan bob jiráff wddf hir, hir.

O Dduw, os ydw i wedi methu gwna fi'n gryf a chadarn i ddal ati. Amen.

- Fyddwch chi'n gwneud eich gorau bob amser?
- Ydi hi'n bwysig ein bod yn dal ati os yda ni wedi methu?